

Taflen Newyddion Gymunedol #1 Prosiect Uned Gwres a Phŵer Cyfunedig Purfa Valero Penfro

- Uned Gydgyhyrchu Gwres a Phŵer Cyfunedig 45 megawat arfaethedig.
- Buddsoddi £100 miliwn ym Mhurfa Penfro.
- Ymwneud â'r gymuned i sicrhau swyddi creffttus yn Sir Benfro.

Buddsoddi Arfaethedig Sylweddol ym Mhurfa Valero Penfro

Neges oddi wrth Reolwr Cyffredinol y Burfa

Ar ran Valero Energy Ltd., hoffwn eich croesawu i'r rhifyn cyntaf hwn o'n taflen newyddion gymunedol ynghylch ein cynigion i adeiladu Uned Gydgyhyrchu Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) 45 megawat yma ym Mhurfa Penfro. Ynddi fe welwch fanylion ein **Hymrwymiad Ymwneud â Rhanddeiliaid** a sut y bwriadwn ymgynghori'n weithredol â chymunedau a rhanddeiliaid lleol.

Ed Tomp, Is-lywydd a Rheolwr Cyffredinol y Burfa



Mae Valero wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer buddsoddiad arfaethedig o £100 miliwn i adeiladu Uned Gydgyhyrchu Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) ym Mhurfa Penfro. Bydd yr uned 45 megawat sy'n cael ei ystyried gan Valero'n darparu pŵer i'r burfa, yn ogystal ag ategu galw'r burfa am ager.

Mae disgwyl i'r prosiect CHP arwain at arbedion ynni sylfaenol mewn cymhariaeth â chynhyrchu gwres a thrydan ar wahân. Mae disgwyl hefyd iddo leihau costau gweithredol y burfa a gwella ei sicrwydd ynni, gan gynorthwyo cynnal ymarferoldeb hirdymor y burfa a diogelu swyddi'r dyfodol yn y diwydiant puro yng Nghymru.


Oherwydd bod y prosiect yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), mae Valero'n gorfod ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac aelodau'r gymuned yn ystod cyfnod statudol o 6 wythnos cyn cyflwyno ein cais yn derfynol. Un o flaenoriaethau uchaf Valero yw gweithio'n agos gyda thrigolion

lleol a'n cymunedau a dweud wrthynt am ein cynlluniau wrth iddynt ddatblygu ac, yn ystod y cyfnod Cyn Gwneud Cais hwn, ein nod yw ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd uwchlaw a thu hwnt i'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl gan y rheoliadau DNS.

Trwy adeiladu ar berthynas gadarnhaol bresennol Valero gyda'n cymunedau lleol, rydym eisiau sicrhau bod rhanddeiliaid yn clywed ein cynigion, cael ymateb ganddynt a rhoi sylw i unrhyw gwestiynau a phryderon sy'n cael eu mynegi. Dyma ein **Hymrwymiad Ymwneud â Rhanddeiliaid** sy'n dangos sut mae Valero'n bwriadu ymgynghori'n weithredol â chymunedau a rhanddeiliaid lleol ar ein prosiect CHP ymhob Cyfnod.

Cyfnod 1 yw hwn.

Yn ystod y prosiect byddwn yn ymwneud â chymunedau yng nghyffiniau'r prosiect a allai deimlo effaith yn ystod adeiladu a gweithredu'r uned CHP.



Mae'r cymunedau hyn yn ffurfio rhan o Barth Ymgynghori'r prosiect.

Mae'r rhain yn cynnwys y cymunedau canlynol: Angle (1); Hundleton (2); Ystadbwl a Chastellmartin (3); Penfro (4); Coshleston (5); Doc Penfro (6); Neyland (7); Llanstadwel (8); Aberdaugleddau (9); Herbrandston (10); Llanisan-yn-Rhos (11); a Dale (12).



Ymrwymiad Ymwneud â Rhanddeiliaid

- Uned Gydgynhyrchu Gwres a Phŵer Cyfunedig 45 megawat arfaethedig.
- Buddsoddi £100 miliwn ym Mhurfa Penfro.
- Ymwneud â'r gymuned i sicrhau swyddi crefftus yn Sir Benfro.



Rydym eisiau clywed eich barn a dweud wrthyhych beth sy'n digwydd.
Dyma sut fyddwn yn gwneud hynny.

Cyfnod 1 Cyflwyno'r Prosiect

Mae Cyfnod 1 yn canolbwyntio ar gyflwyno'r prosiect i randdeiliaid a chymunedau. Mae hyn yn cynnwys:

- Datganiad i'r cyfryngau'n cyhoeddi cais y prosiect.
- Cyflwyno'r prosiect i aelodau pwyllgor cyswllt Panel Cynghori Cymunedol Valero.
- Cyfarfod Cynghorwyr Tref a Chymuned yn y Parth Ymgynghori i egluro'r camau nesaf.

Cyfnod 2 Hysbysu Rhanddeiliaid

Yng Nghyfnod 2 byddwn yn rhoi gwybodaeth fwy manwl am y prosiect i randdeiliaid a chymunedau. Mae hyn yn cynnwys:

- Tafenni newyddion ychwanegol i drigolion yn y Parth Ymgynghori'n rhoi diweddariadau ar ddatblygiadau'r prosiect.
- Ymwneud â chynrychiolwyr etholedig yr awdurdod lleol, y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU yng nghymunedau'r Parth Ymgynghori.
- Gwefan yn rhoi gwybodaeth am y prosiect lle gall pobl ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau.

Cyfnod 3 Ymgynghori Statudol

Mae Cyfnod 3 yn cynrychioli'r cyfnod ymgynghori statudol o 6 wythnos. Mae hyn yn cynnwys:

- Diwrnodau Agored Cymunedol, yn cael eu hysbysebu o flaen llaw, gydag arddangosfeydd a gwybodaeth arall am y prosiect, ar agor i'r cyhoedd.
- Cyhoeddi hysbysiadau'r prosiect mewn papurau newydd lleol.
- Arddangos hysbysiadau'r prosiect ger safle'r prosiect.
- Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori statudol, bydd Valero'n paratoi adroddiad ymgynghori i'w gyflwyno fel rhan o broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau, bydd Valero'n ymgynghori'n helaeth gydag ymgynghoreion statudol, trigolion lleol a'r cyhoedd.